



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG48922

Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Ymgynghoriad ar Hawliau Pensiwn Diffoddwyr Tân Wrth Gefn 2023

Ionawr 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'n hymgyngoriad 'Hawliau Pensiwn Diffoddwyr Tân Wrth Gefn 2023', gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru iddynt.

Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Gwasanaethau Tân
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

E-bost: fire@gov.wales

Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at y ddogfen ymgynghori: [Ymgynghoriad ar Hawliau Pensiwn Diffoddwyr Tân Wrth Gefn 2023](#)

Cynnwys

Y Broses Ymgynghori.....	4
Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad.....	5
Rhan 1 – Ymestyn Mynediad at Bensiynau Diffoddwyr Tân i Ddiffoddwyr Tân y System ar Ddyletswydd yn Ôl y Galw.....	5
Manylion y Cyfnod Cymhwysedd ac Unioni	5
Rhwymedi Arfaethedig	8
Cyfraniadau.....	9
Yr Ymarfer Opsiynau.....	11
Rhan 2 – Diwygiadau Arfaethedig i Orchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) mewn perthynas â Chontractau Eilaidd.....	13
Materion Amrywiol.....	15
Diwygiadau Eraill.....	20
Y Camau Nesaf.....	21
Atodiad 1 – Rhestr o'r Ymatebwyr.....	22

Y BROSES YMGYNGHORI

1. Dechreuodd ymgynghoriad deuddeg wythnos ar 14 Gorffennaf 2023 ac roedd yn agored i dderbyn ymatebion tan 06 Hydref 2023. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 9 o gwestiynau, gydag opsiynau i ymateb i'r cwestiynau hynny drwy lenwi ffurflen ar-lein neu drwy e-bost. Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

2. Roedd yr ymgynghoriad, a oedd yn cynnwys offeryn statudol drafft, yn canolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 ynghylch hawliau pensiwn diffoddwyr tân RDS. Mae'n nodi cynigion i ddarparu mynediad at bensiynau diffoddwyr tân i ddiffoddwyr tân y System Ddyletswydd yn Ôl y Galw (RDS) a oedd yn gwasanaethu rhwng 7 Ebrill 2000 a 5 Ebrill 2006 (i gynnwys mynediad yn ymwneud â gwasanaeth i'r RDS cyn 7 Ebrill 2000).

Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân 2007 mewn perthynas â chontractau eilaidd. Roedd yn nodi cynigion i ddiwygio cynllun digolledu'r diffoddwyr tân 2007 fel ei fod yn trin anafiadau a gafwyd o dan rai contractau eilaidd yn decach.

3. Cafodd Llywodraeth Cymru 14 ymateb i'r ymgynghoriad. Daeth y 14 ymateb hynny oddi wrth y canlynol:

Tri o'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru,
Dau gan undebau llafur eraill a sefydliadau eraill sy'n cynrychioli diffoddwyr tân,
Un gan ddarparwr meddalwedd pensiwn,
Wyth gan unigolion.

4. Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr ar gael yn Atodiad A.

5. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a hoffai ddiolch i bawb a ymatebodd.

6. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Hasesiad Effaith Integredig ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori. Mae'r safbwynt polisi cyffredinol a nodir yn y ddogfen ymgynghori yn aros yr un fath ac mae wedi ffurfio sail y Gorchymyn terfynol. Felly, nid oes unrhyw newidiadau wedi cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Integredig fel y cafodd ei gyhoeddi'n wreiddiol. Gellir dod o hyd i'r ddogfen yma.

CRYNODEB O'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

7. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i bob un o'r cwestiynau penodol ac ymateb Llywodraeth Cymru iddynt.

RHAN 1 – YMESTYN MYNEDIAD AT BENSIYNAU DIFFODDWYR TÂN I DDIFFODDWYR TÂN Y SYSTEM AR DDYLETSWYDD YN ÔL Y GALW

MANYLION Y CYFNOD CYMHWYSEDD AC UNIONI

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf cymhwysedd a nodir ym mharagraffau 12-17?

8. Roedd 11 o'r 14 ymatebydd yn cytuno â'r meini prawf cymhwysedd a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Nododd un ymatebydd fod y meini prawf a gynigiwyd ar gyfer y cynllun pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru yn gyson â'r meini prawf a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno rhwng Undeb y Brigadau Tân, y Gymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub, y Gymdeithas Llywodraeth Leol, a'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun pensiwn yn Lloegr ("y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn Lloegr"). Teimlai un ymatebydd ei bod yn ddefnyddiol bod y Gorchymyn drafft ei hun yn nodi'r camau y mae'n rhaid i Awdurdod Tân ac Achub fod wedi cydymffurfio â hwy i benderfynu bod opsiwn wedi'i ddarparu'n briodol yn yr ymarfer opsiynau cyntaf.

9. Roedd un ymatebydd yn anghytuno, ond ni ddarparodd unrhyw wybodaeth arall. Rhoddodd dau ymatebydd ragor o fanylion am eu pryderon ynghylch y cynigion:-

- Teimlai un y dylid ehangu'r meini prawf i gynnwys pawb a oedd yn gymwys i ymuno â'r cynllun wedi'i addasu yn ystod yr ymarfer opsiynau cyntaf ond nad oeddent wedi gwneud hynny, ac nid dim ond y rhai na roddwyd y cyfle hwnnw iddynt am ryw reswm. Awgrymwyd nad oedd prawf bod Awdurdod Tân ac Achub wedi ysgrifennu at unigolyn yn ystod yr ymarfer opsiynau cyntaf yn dystiolaeth fod unigolyn wedi derbyn yr ohebiaeth honno neu fod y wybodaeth a ddarparwyd am ddewisiadau aelod, ei fuddion a'r broses ad-dalu bob amser yn gyflawn ac yn gywir.

- Nododd ymatebydd arall y dylai'r rheini â gwasanaeth rhwng 7 Ebrill 2000 a 6 Ebrill 2006 (boed hynny fel RDS neu ddiffoddwr tân amser llawn) yr oedd eu gwasanaeth di-dor cyn 7 Ebrill 2000 yn cynnwys cyfnod o wasanaeth RDS fod yn gymwys, gan honni nad oedd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn Lloegr yn nodi bod yn rhaid i wasanaeth rhwng y dyddiadau hyn fod yn wasanaeth RDS, a hefyd yn dadlau y byddai hyn yn gyson â'r dyfarniad yn O'Brien yn erbyn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Roedd yr ymatebydd yn dadlau y dylid trin cyfnodau o RDS a gwasanaeth amser llawn cydamserol fel un. Awgrymodd yr ymatebydd hefyd, yn hytrach na chael yr opsiwn o ymuno â chynllun 2007 ar gyfer eu gwasanaeth hyd at 2022, y dylid rhoi mecanwaith dewis i unigolion yn lle hynny (yn debyg i'r un a gyflwynwyd ar gyfer rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran¹) a fyddai'n eu galluogi i ddewis rhwng prynu buddion cynllun wedi'i addasu 2007 neu fuddion cynllun 1992.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

10. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw faterion neu bryderon mawr a godwyd ynghylch cywirdeb neu ansawdd gwybodaeth mewn achosion lle cafodd ei darparu gan Awdurdodau Tân ac Achub i unigolion fel rhan o'r ymarfer opsiynau cyntaf un ai yn ystod ei weithredu yn 2015-16, neu ers hynny. Darparwyd templedi i'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru ar gyfer y gwahanol gamau cyfathrebu ag unigolion i sicrhau bod dull gweithredu cyson safonol yn cael ei ddefnyddio, ac roedd Awdurdodau Tân ac Achub yn defnyddio'r drefn amcangyfrif a ddarparwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth i sefydlu manylion y cyfraniadau sy'n ddyledus gan unigolion. Mae ein deddfwriaeth ar gyfer yr ail ymarfer opsiynau hefyd yn darparu ar gyfer proses apelio lle mae Awdurdod Tân ac Achub yn penderfynu ei fod wedi hysbysu person o'i hawl yn yr ymarfer opsiynau cyntaf, ond nad yw'r person yn credu bod hynny'n wir.

11. Mae'r materion ynghylch a yw'r rheini a adawodd eu cyflogaeth fel diffoddwr tân wrth gefn cyn 7 Ebrill 2000, ac a ellir cyfuno gwasanaeth amser llawn ac RDS at ddibenion pensiwn, yn destun ymglyfreitha ar hyn o bryd ac ni fyddai'n briodol gwneud sylwadau pellach rŵan, na diwygio ein cynigion cyn dyfarniad neu setliad yn yr achosion hynny .

12. Ar ôl ystyried yr ymatebion a ddaeth i law, rydym yn fodlon bod y meini prawf cymhwysedd arfaethedig a nodir yn yr ymgynghoriad yn dal yn briodol. Bydd y Gorchymyn terfynol yn adlewyrchu'r sefyllfa honno.

Cwestiwn 2 - Ydych chi'n cytuno y dylai'r trefniadau arfaethedig gynnwys yr opsiwn i brynu gwasanaeth di-dor y RDS yn y cynllun wedi'i addasu rhwng 31 Mawrth 2015 a 31 Mawrth 2022, ni waeth a ddarperir ar gyfer hynny drwy'r darpariaethau hyn neu reoliadau ar wahân a wneir o dan Ddeddf PSPJO 2022?

¹ [Ymgynghoriad Rhwymedi o ran Gwahaniaethu ar Sail Oedran Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân \(Gwasanaeth Rhwymediol\) \(Cymru\) 2023 \(legislation.gov.uk\)](#)

13. Roedd pob un o'r 14 ymatebydd yn cytuno y dylai aelodau cymwys hefyd gael cyfle i brynu hawliau pensiwn yn yr elfen wedi'i haddasu o gynllun 2007 rhwng 31 Mawrth 2015 a 31 Mawrth 2022.

14. Nododd un ymatebydd, gan fod yr ail ymarfer opsiynau ac ymarferion rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran yn rhedeg ar yr un pryd, y gallai fod yn anodd sicrhau bod y terfynau amser angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

15. Dywedodd un ymatebydd y byddai cysylltu pensiwn a brynwyd ar gyfer y cyfnod hwn â chymhwysedd o dan drydydd amod adran 1(5)(b) o Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddfeydd Barnwrol 2022 yn dileu beichiau gweinyddol ychwanegol diangen a defnyddio disgrisiwn lleol a allai arwain at amrywiadau yn y dull gweithredu.

16. Nododd un ymatebydd dri chategori o ddiffoddwyr tân RDS a oedd yn gymwys i gymryd rhan yn yr ail ymarfer opsiynau a oedd yn rhyngweithio â rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran: y rheini a oedd eisoes yn aelodau arbennig o gynllun 2007; y rheini a oedd ag aelodaeth safonol yng nghynllun 2007; a'r rheini nad oedd ganddynt aelodaeth o unrhyw un o'r cynlluniau. Byddai'r rheini yn y categori cyntaf yn dychwelyd yn awtomatig i'r cynllun wedi'i addasu fel eu cynllun gwaddol o dan y rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran, ond byddai angen darparu ar gyfer y rheini yn yr ail a'r trydydd categori hefyd. Yn benodol, nododd yr ymatebydd y byddai'r rheini sydd ag aelodaeth safonol gyfredol yng nghynllun 2007 yn dychwelyd i'r cynllun hwnnw fel rhan o'r rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran, a'r rheini nad oeddent yn aelod o unrhyw gynllun pensiwn a wnaeth gais i adfer cyfnod 2015-2022 fel aelodaeth arbennig yn cael eu gwrthod oherwydd nad oedd y rheswm dros ddewis peidio â chymryd aelodaeth arbennig yn achos perthnasol o dorri rheol dim gwahaniaethu.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

17. Roedd ein dogfen ymgynghori yn nodi ein bwriad y byddai unigolion cymwys yn gallu prynu pensiwn am wasanaeth di-dor yn y cynllun wedi'i addasu hyd at 31 Mawrth 2022, un ai drwy'r ail ymarfer opsiynau neu drwy reoliadau rhwymedi o ran gwahaniaethu ar sail oedran a wnaed o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddfeydd Barnwrol 2022 (Deddf 2022). Fodd bynnag, roeddem yn glir bod gwaith yn cael ei wneud o hyd i egluro'r union fecanwaith a fyddai'n berthnasol i wasanaeth yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

18. Ers hynny, rydym wedi egluro na allwn wneud darpariaeth ar gyfer y cyfnod hwn fel rhan o'r ail ymarfer opsiynau oherwydd mae Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 yn atal darparu ar gyfer buddion yng nghynllun 2007 ar ôl 31 Mawrth 2015, ac eithrio mewn perthynas â rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran o dan Ddeddf 2022.

19. Fodd bynnag, mae Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymediol) (Cymru) 2023 a wnaed ar 4 Medi yn darparu ar gyfer ymestyn y rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran i unigolion sy'n gymwys i gymryd rhan yn yr ail ymarfer opsiynau o dan yr amgylchiadau penodol a nodir ym mharagraff 16 uchod. Roedd yr holl ymatebwyr a roddodd ymatebion manwl i'r cwestiwn hwn fel

petaent yn cydnabod y sefyllfa honno, ac roedd eu sylwadau'n seiliedig ar sut y byddai'r darpariaethau rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran a'r ail ymarfer opsiynau yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol.

20. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y rhyngweithio rhwng y ddau ymarfer unioni. Bydd angen rhoi'r ail ymarfer opsiynau ar waith yn gyntaf i sicrhau bod unigolyn yn cael ei roi yn adran wedi'i haddasu cynllun 2007 er mwyn sicrhau bod y cynllun gwaddol cywir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ôl-gyflwyno neu brynu gwasanaeth optio allan o dan ddarpariaethau rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran. Rydym yn cydnabod y gallai hynny greu rhai problemau amseru, er enghraifft o ran amseriad cyhoeddi datganiad gwasanaeth rhwymediol cyntaf o dan y rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran, a'r amserlenni statudol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch optio i mewn o dan Ddeddf 2022. Fodd bynnag, mae rheoliadau'r cynllun rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran y cyfeirir atynt uchod yn rhoi hyblygrwydd o ran yr holl amseroedd hyn y gall rheolwyr cynlluniau eu defnyddio i sicrhau bod gwybodaeth a dewisiadau aelodau'n cael eu gwneud yn y drefn gywir.

21. Cyfeiriodd un ymatebydd at y ffaith y byddai'r gallu i optio i mewn i aelodaeth arbennig o gynllun 2007 o dan y rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran yn cael ei gyfyngu gan ofniad i ddangos bod eu penderfyniad i optio allan yn gysylltiedig â gwahaniaethu ar sail oedran yng nghynllun 2015. Rydym yn deall bod hyn yn wir yn Lloegr; fodd bynnag, nid oes cyfyngiadau o'r fath yn Rheoliadau Cymru. I egluro, bydd gan unrhyw ddiffoddwr tân sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn adran 1 o Ddeddf 2022 yr hawl i optio i mewn i'r cynllun gwaddol perthnasol ar gyfer cyfnod y rhwymedi. Mae hynny'n cynnwys diffoddwyr tân wrth gefn sy'n disgyn o dan y trothwy cyflog o £10,000 y flwyddyn er cofrestru'n awtomatig yn y cynllun pensiwn. Mae ein rheoliadau'n gwneud darpariaeth ynghylch rhai o'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn dewis optio i mewn. Fodd bynnag, er bod Deddf 2022 yn darparu ar i reoliadau cynlluniau gynnwys amodau penodol y gellir gwrthod cais oddi tanynt, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnwys unrhyw amodau o'r fath yn rheoliadau'r cynllun.

22. Felly bydd ein deddfwriaeth yn adlewyrchu y bydd yr ail ymarfer opsiynau yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 31 Mawrth 2015.

RHWYMDI ARFAETHEDIG

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno â'r dybiaeth rydym wedi'i chynnig ar gyfer gwasanaeth, cyflog a graddfa yn y gorffennol?

23. Roedd 13 o'r 14 ymatebydd yn cytuno â'r tybiaethau a gynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori mewn perthynas â gwasanaeth, tâl a gradd hanesyddol, yn arbennig:-

- os na allai'r Awdurdod Tân ac Achub na'r unigolyn ddarparu prawf o wasanaeth, yna caiff yr Awdurdod benderfynu nad oedd gan y person unrhyw hawl i ymuno â'r cynllun wedi'i addasu ar gyfer y cyfnod hwnnw,

- os nad oedd data cyflog perthnasol ar gael, dylid tybio bod diffoddwr tân RDS yn ennill 25% o gyflog cyfeirio diffoddwr tân amser llawn am unrhyw flwyddyn berthnasol, ac
- yn niffyg tystiolaeth i'r gwrthwyneb, dylid tybio bod unigolyn yn ddiffoddwr tân cymwys at ddibenion amcangyfrif cyflog pensiynadwy.

24. Nododd un ymatebydd y gallai fod angen tybiaeth bellach o ran tâl cyfeirio amser llawn cyn y dyddiad cynharaf y mae graddfeydd cyflog ar gael. Nododd yr un ymatebydd fod y ddogfen ymgynghori yn dweud bod y rôl dybiedig yn rôl diffoddwr tân cymwys, er nad oedd y gorchymyn drafft ei hun ond yn cynnwys cyfeiriad at "ddiffoddwr tân" ac awgrymodd y byddai cynnwys diffoddwr tân cymwys yn y rheoliadau eu hunain yn rhoi mwy o eglurder.

25. Nododd un Awdurdod Tân ac Achub a ymatebodd nad oedd unrhyw wybodaeth am dâl na gwasanaeth cyn 2000 ar gael ac y byddai'r tybiaethau diofyn yn cael eu defnyddio ym mhob achos oni bai y gallai unigolion ddarparu tystiolaeth i'r gwrthwyneb.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

26. Nodwn fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad ac felly rydym yn bwriadu gweithredu'r cynigion fel y nodir yn yr ymgynghoriad gyda'r addasiadau canlynol:-

- lle nad oes gan awdurdod gofnodion tâl a bod yn rhaid iddo benderfynu ar dâl pensiynadwy o gofnodion eraill neu brofiad lleol - os yw'r penderfyniad hwn yn dynodi swm sy'n is na 25%, yna 25% fydd y dewis diofyn, ond os yw'r penderfyniad hwn yn dangos bod y cyflog cyfartalog yn fwy na 25%, yna gellir defnyddio'r swm uwch,
- addasu'r darpariaethau i ddangos bod 25% o'r tâl cyfeirio yn cyfeirio at ddiffoddwr tân cymwys.

27. Rydym yn nodi'r sylw a wnaed gan un ymatebydd ynghylch y dyddiad cynharaf y mae graddfeydd cyflog ar gael a byddwn yn gweithio gyda'r Awdurdodau ar ateb ar gyfer unrhyw achosion sy'n dod i'r amlwg lle mae cyfrifiadau'n cynnwys cyfnodau lle nad oes graddfeydd cyflog priodol ar gael.

CYFRANIADAU

Cwestiwn 4 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynnig i rannu cyfraniadau rheolaidd ar gyfer gwasanaeth ar ôl y flwyddyn 2000 dros 10 mlynedd ac, ar gyfer gwasanaeth cyn y flwyddyn 2000, 10 mlynedd a hanner hyd y gwasanaeth cyn 2000 y maent wedi dewis ei brynu?

28. Roedd 11 o'r 14 o ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig i rannu cyfraniadau rheolaidd ar gyfer gwasanaeth ar ôl y flwyddyn 2000 dros 10 mlynedd ac, ar gyfer gwasanaeth cyn y flwyddyn 2000, 10 mlynedd a hanner hyd y gwasanaeth cyn 2000 y maent wedi dewis ei brynu. Nododd un o'r ymatebwyr hynny bod y dull gweithredu

arfaethedig yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd yn yr ymarfer opsiynau cyntaf, er bod ymatebydd arall wedi dweud bod y cyfnod ad-dalu yn rhy hael, mewn achosion lle'r oedd y swm a oedd yn ddyledus gan yr aelodau yn fach iawn. Roedd ymatebydd arall, er ei fod yn cefnogi'r cynnig, yn credu nad oedd y cyfnod arfaethedig ar gyfer gwasanaeth cyn 2000 yn ddigonol ac y dylid ei bennu ar 20 mlynedd.

29. Dywedodd un ymatebydd bod y cynnig yn ymddangos yn gymhleth a mynegodd bryderon am y gwaith datblygu meddalwedd ychwanegol a'r goblygiadau cost y gallai hyn ei olygu. Cynigiodd yr un ymatebydd ateb arall sef darparu deng mlynedd i aelodau i ad-dalu'r gwasanaeth ôl-Gorffennaf 2000 a brynir ac 20 mlynedd i ad-dalu'r gwasanaeth cyn- ac ôl-Gorffennaf 2000 a brynir. Awgrymodd yr ymatebydd ymhellach y dylid rhoi opsiwn setlo i aelodau os oeddent yn dymuno ad-dalu ar adeg benodol.

30. Roedd un ymatebydd yn cwestiynu a oedd y dull arfaethedig yn gyfartal ac yn deg. Ni roddodd un ymatebydd ei farn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

31. Nodwn fod yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â'r dull gweithredu a nodir yn ein hymgyngghoriad ar gyfer ad-dalu cyfraniadau. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi pryderon rhai ymatebwyr ynghylch ad-dalu symiau bach fesul rhandaliadau, ond ar y llaw arall nad yw lledaeniad taliadau rheolaidd am wasanaeth cyn 2000 yn ddigon hir.

32. O ran y cyfnod ad-dalu am wasanaeth cyn 2000, ein cynnig gwreiddiol oedd y câi rhandaliadau aelodau arbennig neu aelodau gohiriedig arbennig eu lledaenu dros gyfnod o 10 mlynedd yn ogystal â hanner hyd y gwasanaeth cyn 1 Gorffennaf 2000 y maent wedi dewis ei brynu. Byddai hyn yn golygu y byddai aelod a ymunodd â'r gwasanaeth yn 1970 ac a oedd yn dal i gael ei gyflogi fel diffoddwr tân RDS yn gallu lledaenu ad-dalu cyfraniadau rheolaidd dros 25 mlynedd (10 mlynedd a hanner y 30 mlynedd o wasanaeth cyn 2000). Ond rydym yn cydnabod y byddai aelodau sydd â gwasanaeth o 1980 ymlaen yn elwa mwy o gyfnod ad-dalu 20 mlynedd, ac rydym yn derbyn y byddai'r rhan fwyaf o aelodau sy'n dal yn aelodau arbennig neu'n aelodau gohiriedig arbennig yn perthyn i'r categori hwn, gan y byddai'r rhan fwyaf o unigolion sydd â gwasanaeth cyn 1980 yn perthyn i'r categori aelod-bensiynwr arbennig. Cytunwn hefyd y gallai lledaenu taliadau bach iawn dros ormod o flynyddoedd ddod yn faich ar aelodau'r cynllun yn ogystal â rhoi baich gweinyddol ychwanegol ar reolwyr a gweinyddwyr cynllun. Sefyllfa fwy rhesymol fyddai caniatáu i'r Awdurdod Tân ac Achub osod y telerau ad-dalu gyda chytundeb yr aelod. Felly, rydym yn bwriadu diwygio'r darpariaethau a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad i adlewyrchu'r sefyllfa ganlynl o ran taliadau rheolaidd.

33. Bydd y cyfnod talu'n cael ei bennu gan reolwyr y cynllun gyda chytundeb yr aelod o'r cynllun, ond o fewn y terfynau canlynol:

- Rhaid i daliadau o dan £100 gael eu gwneud fel cyfandaliad.
- Rhaid gwneud taliadau rheolaidd i brynu gwasanaeth ôl-2000 o fewn 10 mlynedd i gytundeb o'r fath.

- Rhaid gwneud taliadau rheolaidd i brynu gwasanaeth cyn 2000 o fewn 20 mlynedd, neu 10 mlynedd a hanner hyd y gwasanaeth cyn 2000, p'un bynnag yw'r hiraf.

34. Rydym yn fodlon bod ein cynigion presennol ar daliadau cyfandaliad yn gyson â'r dull rydym wedi'i fabwysiadu yn ein rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran, ac yn yr ymarfer opsiynau cyntaf, ac nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw addasiadau i'r rhain.

35. Rydym yn derbyn y bydd ein cynnig yn gofyn am newid yn y meddalwedd a ddefnyddir gan reolwyr a gweinyddwyr y cynllun, ond nid ydym yn credu bod hyn yn arbennig o gymhleth: yr unig wahaniaeth allweddol rhwng ein cynlluniau ni a'r rhai sy'n cael eu gweithredu mewn manau eraill yw'r cyfnod ad-dalu. Bydd cyfrifiadau ar gyfer cyfnod ad-dalu cyfraniadau'n hyblyg yn cael eu hategu gan drefn amcangyfrif Adran Actiwari'r Llywodraeth.

36. Yn amodol ar yr uchod, byddwn felly yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

YR YMARFER OPSIYNAU

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno y dylid cwblhau'r ymarfer opsiynau newydd o fewn 18 mis (gyda hyblygrwydd wedi'i gynnwys i fynd y tu hwnt i hynny mewn achosion eithriadol fel y disgrifir ym mharagraff 72).

37. Roedd naw o'r 14 ymatebydd yn cefnogi'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori. Nododd un o'r ymatebwyr hynny fod yr amseru'n gyson â'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymarfer opsiynau cyntaf. Er bod un o'r ymatebwyr hynny'n cytuno â'n cynigion, roedd hyn ar y sail fod tystiolaeth o'r cyswllt a wnaed â'r unigolyn, a'i ateb, wedi'i chofnodi. Roedd dau o'r ymatebwyr hynny'n croesawu'r hyblygrwydd a gâi ei rhoi i'r Awdurdod Tân ac Achub neu'r unigolyn, lle nad yw'n rhesymol ymarferol cydymffurfio â'r amserlen.

38. Roedd dau ymatebydd yn cefnogi'r cynigion mewn egwyddor ond yn codi materion yn ymwneud â chymau perthnasol yr ail ymarfer opsiynau ac yn credu y dylid eu diwygio / cryfhau. Roedd y rhain yn cynnwys:-

- Dylid diwygio rheol ddrafft 6C(14) i egluro y gall y dewis ddod i rym ar ôl 30 Mehefin 2025 hefyd os nad oedd yr Awdurdod Tân ac Achub wedi gwneud ymdrechion rhesymol i hysbysu'r unigolyn,
- dylid gwrthdroi'r amserlenni ar gyfer yr ail a'r trydydd cam. Hynny yw, dylai'r unigolyn gyflwyno datganiad o ddiddordeb o fewn tri mis, a dylid rhoi chwe mis i'r Awdurdod Tân ac Achub i ddarparu'r datganiad o wasanaeth.

39. Nid oedd dau ymatebydd yn cytuno â'r cynigion. Credai un o'r ymatebwyr hynny fod y mater wedi cymryd digon o amser i'w ddatrys. Roedd yr ymatebydd arall o'r farn, ar gyfer y rheini sydd eisoes yn y cynllun ar ôl yr ymarfer opsiynau

cyntaf, na ddylai fod angen dangos diddordeb mewn ymuno â'r cynllun; dylai'r cais fod yn awtomatig.

40. Tynnodd un ymatebydd sylw at yr effaith y gallai'r amserlenni ei chael ar adnoddau i weithredu'r cynigion, ochr yn ochr â'r rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran. Ychwanegodd yr ymatebydd fod angen eglurhad pellach mewn perthynas â'r dystiolaeth sy'n ofynnol gan y naill barti a'r llall, pe bai anghydfod.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

41. Rydym yn nodi bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol a nodir yn ein hymgyngoriad ar gyfer gweithredu'r ail ymarfer opsiynau.

42. Rydym yn cydnabod y sylwadau am amseriad yr ymarfer. Mae'n amlwg fod angen i'n cynigion weithio'n ymarferol ac felly rydym yn cydymdeimlo â'r materion a godwyd. Mae rheolau'r cynllun yn darparu amserlen i Awdurdodau ei dilyn a fydd yn sicrhau bod yr ail ymarfer opsiynau yn cael ei roi ar waith o fewn 18 mis, er bod y rheolau hefyd yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd lle na fyddai'n rhesymol ymarferol cwblhau'r ymarfer o fewn y 18 mis hynny. O ran darpariaethau sy'n galluogi rhoi dewisiadau ar waith ar ôl 30 Mehefin 2025 mewn achosion lle na chafodd unigolyn cymwys hysbysiad gan yr awdurdod, rydym yn cytuno y gallai Rheol 6B(14) awgrymu y dylid defnyddio dull gwahanol ar gyfer unigolion lle'r oedd awdurdod wedi gwneud neu heb wneud ymdrechion rhesymol i hysbysu person cymwys. Nid dyma yw ein bwriad ac o'r herwydd rydym wedi diwygio Rheol 6B(14) i ddileu'r cyfeiriad at ymdrechion rhesymol awdurdod. Mae'r gofyniad ar Awdurdodau Tân ac Achub i gysylltu ag aelodau yn cael ei gynnwys mewn man arall yn y darpariaethau o dan Reol 5B. Mae'r dyddiadau y cyfeiriwyd atynt yn y Gorchymyn drafft yr ymgynghorwyd arno wedi cael eu diweddarau drwyddi draw i adlewyrchu'r dyddiad ychydig hwyrach y daw'r Gorchymyn terfynol i rym arno. Mae hyn yn golygu bod y dyddiad 30 Mehefin 2025 y cyfeiriwyd ato uchod bellach wedi cael ei newid i 31 Gorffennaf 2025.

43. Nid ydym yn cytuno â'r awgrym y dylid cymryd bod y rheini a oedd wedi prynu gwasanaeth o'r gorffennol o dan yr ymarfer opsiynau cyntaf wedi gwneud cais yn awtomatig o dan yr ail ymarfer. Mae'n bosibl iawn bod amgylchiadau unigolion wedi newid yn ystod y blynyddoedd ers hynny, a rhaid i'r penderfyniad pa un i wneud cais fod yn benderfyniad personol yr aelod bob amser. Felly, credwn ei bod yn briodol cysylltu â phob aelod cymwys i gadarnhau eu dewis.

44. Rydym yn nodi sylwadau ymatebwyr am yr effaith ar weinyddwyr cynlluniau i weithredu'r newidiadau ochr yn ochr â'r rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran ac yn cydnabod yr effaith sylweddol y bydd unioni'r ddwy set o newidiadau ar yr un pryd yn ei chael. Fodd bynnag, mae gan unigolion sy'n gymwys i gymryd rhan yn yr ail ymarfer opsiynau hawl i gael ateb amserol ac effeithiol. Fel y nodwyd yn ein hymateb i Gwestiwn 2 uchod, mae rhyngweithio pwysig hefyd rhwng yr ail ymarfer opsiynau a'r rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran sy'n golygu bod yn rhaid gweithredu'r ddau yn olynol er mwyn sicrhau bod unigolion sy'n gymwys ar gyfer y ddau, yn cael y cyfleoedd a'r buddion cywir.

45. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen i weithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

RHAN 2 – DIWYGIADAU ARFAETHEDIG I ORCHYMYN CYNLLUN DIGOLLEDU'R DIFFODDWYR TÂN (CYMRU) MEWN PERTHYNAS Â CHONTRACTAU EILAIDD

Cwestiwn 6 – I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylem newid y diffiniadau o "diffoddwr tân" a "cyflog pensiynadwy" yn y Cynllun lawndal, i sicrhau bod gan y diffoddwyr tân hynny sydd â chontract eilaidd hawl i gael iawndal ar yr un telerau â'r rheini nad ydynt â chontract eilaidd?

46. Roedd saith o'r 14 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion. Roedd dau yn anghytuno ond nid oeddent yn nodi eu rhesymau. Ni wnaeth un ymatebydd sylw ar y cynnig o gwbl. Roedd yn ymddangos bod y pedwar ymatebydd arall yn cytuno ag elfennau o'r cynnig ond gwnaethant gynnig sylwadau pellach.

47. Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig i gynnwys dyletswyddau USAR o fewn rôl diffoddwr tân rheolaidd oherwydd awgrymwyd nad yw technegwyr USAR yn ymgymryd â'r rôl hon yn unol â'u prif gontractau. O ganlyniad, maent yn credu bod y gwahaniaeth presennol yn rhesymol ar sail y sefyllfa gytundebol.

48. Ar ben hynny, mynegodd yr un ymatebwyr bryder y byddai cynnwys dyletswyddau USAR fel rhan o rôl diffoddwr tân rheolaidd yn arwain at her bosibl y dylai technegwyr USAR fod yn gymwys i ddod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

49. Nododd ymatebydd hefyd y gallai'r cynnig i gyfrifo buddion y cynllun digolledu ar sail cyflog pensiynadwy parhaol amser llawn fod yn anghymesur ac y gallai gyflwyno anghydraddoldeb, mewn amgylchiadau lle mae dyletswyddau technegwyr USAR o dan eu prif gontractau ar lefelau gwahanol, er enghraifft gallai un unigolyn gael ei gyflogi fel diffoddwr tân, tra gallai ei gydweithiwr gael ei gyflogi fel Rheolwr Gorsaf. Ar ben hynny, gallai hyd y gwasanaeth fod yn wahanol iawn, felly dylid ystyried ymhellach sut y dylid cyfrifo taliadau iawndal.

50. Roedd dau ymatebydd o blith yr Awdurdodau Tân ac Achub hefyd wedi sôn am y posibilrwydd y gallai technegwyr USAR ddod yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Byddai hyn yn caniatáu i ddiffoddwyr tân sy'n ymgymryd â dyletswyddau USAR gyfrannu at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn seiliedig ar eu gwasanaeth USAR yn unig ac yn unol â rheolau hawl y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mynegwyd pryder y gallai darparu cymhwysedd am fuddion o dan Gynllun Digolledu 2007 greu sefyllfa lle byddai gan unigolyn hawl i bensiwn neu fudd-daliadau marwolaeth o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar sail y contract eilaidd a phensiwn ac iawndal ar sail y prif gontract o dan Gynllun Digolledu 2007, gyda rhai elfennau yn cael eu dyblygu efallai. Holodd un Awdurdod Tân ac Achub hefyd a fyddai Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol i'r Awdurdodau Tân ac Achub yn sgil cynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Digolledu ar ffurf

unigolion sy'n cyflawni dyletswyddau USAR.

51. Holodd un ymatebydd a ddylai'r cynnig i ddarparu buddion y cynllun digolledu i ddiffoddwyr tân RDS fod yn seiliedig ar gyfrifo dyfarniadau ar gyfer diffoddwyr tân rhan amser, felly'n seiliedig ar flynyddoedd llawn o wasanaeth, ond gan ddefnyddio oriau rhan-amser gwirioneddol yn hytrach nag oriau amser llawn.

52. Awgrymodd dau ymatebydd na ddylid cyfyngu'r cynnig i ddarparu taliadau digolledu i'r achosion hynny lle mae prif gontract cyflogaeth unigolyn gyda'r un Awdurdod Tân ac Achub ag y mae ganddo gontract eilaidd ag ef hefyd. Awgrymodd un ymatebydd y dylid ymestyn hyn i gynnwys contractau diffoddwyr tân amser llawn sy'n cael eu dal gan Awdurdod Tân ac Achub arall. Awgrymodd un arall y dylid eu hymestyn i gynnwys iawndal am unrhyw brif gyflogaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

53. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cymysgedd o ymatebion i'r cynnig hwn, a oedd yn cynnwys derbyniad cadarnhaol, yn ogystal â rhywfaint o anghytuno â nifer o'i agweddau.

54. Rydym yn nodi'r farn sydd gan rai ymatebwyr y dylai cymhwysedd diffoddwr tân i gael iawndal am anafiadau gael ei adlewyrchu gan y sefyllfa gytundebol yr oeddent yn cyflawni dyletswyddau ynddi pan gawsant eu hanafu. Fodd bynnag, credwn y byddai hynny'n wahaniaeth artiffisial mewn llawer o amgylchiadau, yn seiliedig ar drefniadau contract gweinyddol yn unig. Mae perygl y bydd sefyllfa o'r fath yn creu annhegwch sylweddol. Yn achos technegwyr USAR, maent, wedi'r cyfan, yn ddieithriad hefyd yn gwasanaethu fel diffoddwyr tân rheolaidd, wrth gefn neu wirfoddol. Ni fyddem yn ystyried ei bod yn deg, er enghraifft, pe bai diffoddwr tân rheolaidd gyda blynyddoedd lawer o wasanaeth yn cael ei anafu wrth gyflawni dyletswyddau o dan gontract USAR eilaidd ac felly ddim yn cael yr iawndal y byddai ef neu hi wedi'i gael pe bai wedi cael anaf tebyg o dan y contract rheolaidd, dim ond am fod y dyletswyddau hynny'n cael eu cyflawni dan gontract cyflogaeth ar wahân. Nid ydym o'r farn fod ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig wedi mynd i'r afael â'r rheidrwydd cryf hwn i fod yn deg.

55. Rydym yn nodi'r awgrym y dylai buddion y cynllun digolledu a ddarperir i ddiffoddwr tân RDS fod yn debyg i'r buddion a gyfrifir ar gyfer diffoddwyr tân rhan-amser. Rydym yn ymwybodol fod diffyg cysondeb rhwng y ddwy set o gyfrifiadau wedi cael ei godi fel pryder mewn rhannau eraill o'r DU, ond nid yw hwn yn fater sydd wedi cael ei godi gyda Llywodraeth Cymru o'r blaen. Nid yw hyn yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad ei hun, ond byddwn yn monitro datblygiadau mewn mannau eraill ac yn gweithredu'n unol â hynny maes o law. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi'r awgrym na ddylid cyfyngu taliadau digolledu i'r achosion hynny lle mae prif gontract cyflogaeth unigolyn gyda'r un Awdurdod Tân ac Achub ag y mae ganddo gontract eilaidd hefyd gydag ef. Nid ydym yn cytuno â hynny. Dylai iawndal a buddion pensiwn (gan gynnwys buddion afiechyd a goroeswr) am brif wasanaeth gyda chyflogwr arall ddisgyn yn glir o dan y trefniadau sydd gan ddiffoddwr tân RDS gyda'r cyflogwr hwnnw.

56. O ran cyllid, nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu unrhyw gyllid ychwanegol, gan mai mater i Awdurdodau Tân ac Achub yw ariannu'r cynllun.

57. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymatebion a dynnodd sylw at gymhwysedd posibl technegwyr USAR ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nodwn ymhellach fod cymhwysedd ar gyfer y cynllun hwnnw yn cael ei ystyried gan nifer o Awdurdodau Tân ac Achub ar hyn o bryd. Rydym hefyd wedi rhoi ystyriaeth bellach i'r mecanwaith arfaethedig ar gyfer cyflawni'r amcan polisi cyffredinol drwy ddiwygio'r diffiniadau o "ddiffoddwr tân" a "chyflog pensiynadwy" yng nghynllun iawndal 2007.

58. Er ein bod yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater craidd o annhegwch i'r rheini sydd wedi'u hanafu o dan gontractau eilaidd, yr ydym yn cydnabod, o ganlyniad i'r ddau bwynt uchod, yr angen i aildrefnu hyd a lled y polisi, a'r ffordd y caiff ei gyflawni drwy'r ddeddfwriaeth.

59. O ganlyniad, bwriadwn symud ymlaen ar y sail ddiwygiedig y dylid trin anaf a gafwyd yn ystod contract eilaidd, at ddibenion cynllun digolledu 2007, fel pe bai wedi ei ddiodef wrth arfer dyletswyddau o dan brif gontract y diffoddwr tân. Yn benodol:

- i ddiffoddwyr tân sydd â chyflogaeth eilaidd dros dro fel technegwyr USAR (neu sydd â chyflogaeth eilaidd dros dro i ymateb i argyfwng o fath a grybwyllir yn adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, neu erthyglau 2, 3 neu 3A o Orchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007) gyda'r un Awdurdod Tân ac Achub, byddai anaf a gafwyd wrth gyflawni dyletswyddau tra'n ymateb i ddigwyddiadau o'r fath yn cael ei drin fel pe bai wedi'i gael o dan ei gyflogaeth fel diffoddwr tân rheolaidd neu wrth gefn;
- i ddiffoddwr tân rheolaidd sydd â chyflogaeth eilaidd gyda'r un Awdurdod Tân ac Achub fel diffoddwr tân wrth gefn, byddai anaf a gafwyd wrth gyflawni ei gyflogaeth wrth gefn yn cael ei drin fel pe bai wedi'i gael o dan ei gyflogaeth fel diffoddwr tân rheolaidd. Fodd bynnag, mae'r rheol hon yn cael ei datgymhwyso os byddai cyflog a gwasanaeth unigolyn o dan ei gontract RDS yn arwain at fwy o iawndal na thâl a gwasanaeth o dan ei gontract amser llawn. Yn y sefyllfa hon, dylai buddion y cynllun digolledu fod yn seiliedig ar dâl a gwasanaeth o dan y contract a fyddai'n darparu'r lefel uchaf o iawndal.

60. Felly, os yw diffoddwr tân rheolaidd sydd â 10 mlynedd o wasanaeth yn cael anaf wrth arfer ei ddyletswyddau o dan gyflogaeth dros dro eilaidd fel technegydd USAR, gyda 2 flynedd o wasanaeth, neu gyflogaeth eilaidd fel diffoddwr tân wrth gefn, hefyd gyda 2 flynedd o wasanaeth, gyda'r un awdurdod tân ac achub, yna byddai gan y diffoddwr tân hwnnw hawl i ddyfarniadau iawndal sy'n gymesur â'i wasanaeth rheolaidd o 10 mlynedd, cyn belled ag y byddai'n anaf cymwys ac y bodlonir yr holl ofynion perthnasol eraill.

MATERION AMRYWIOL

Cwestiwn 7 – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynnig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

61. Awgrymodd un ymatebydd y dylid cyfleu effeithiau cadarnhaol a negyddol yn fwy agored drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Ni wnaed unrhyw sylwadau penodol eraill ar wahân i gydnabod y bydd dogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn unol â Safonau'r Gymraeg.

62. Ni roddodd chwe ymatebydd eu barn.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

63. Rydym yn nodi y bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn parhau i gyfathrebu â'u haelodau yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn unol â Safonau'r Gymraeg. Bydd y Gorchymyn hefyd yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac eithrio'r diwygiadau i Orchymyn Cynllun Pensiwn 1992 a Gorchymyn Cynllun Digolledu 2007. Dim ond yn Saesneg y gwnaed y Gorchymynion gwreiddiol hynny, felly dim ond yn Saesneg y gellir eu diwygio. O ran cyfathrebu ar gyfryngau cymdeithasol, rydym o'r farn mai mater gweinyddol yw hwn ac nid yw'n fater y dylid ei adlewyrchu yn y rheoliadau.

Cwestiwn 8 – Eglurwch hefyd, os gwelwch yn dda, sut rydych yn credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu gynyddu effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

64. Gofynnodd un ymatebydd i ddatganiadau pensiwn symlach fod ar gael i'w gwneud yn haws eu deall. Ni wnaethpwyd sylwadau penodol pellach ynghylch yr effaith y gallai'r polisi ei chael ar y Gymraeg, ac eithrio'r rhai a godwyd eisoes yng Nghwestiwn 6.

65. Ni roddodd chwe ymatebydd eu barn.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

66. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi barn ymatebwyr ar y mater hwn ac yn cydnabod yr angen i aelodau'r cynllun pensiwn gael gwybodaeth glir a chryno. Mae union gyflwyniad gwybodaeth y mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub ei rhoi i aelodau mewn datganiadau yn fater i reolwyr y cynlluniau. Ond wrth anfon unrhyw ohebiaeth, mae'n ofynnol i reolwyr cynlluniau gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, felly os bydd unrhyw ddatganiadau pensiwn yn cael eu darparu dylent fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

67. Credwn mai rheolwyr cynlluniau sydd yn y sefyllfa orau i nodi union eiriad datganiadau pensiwn, ac nad yw'n briodol i hynny gael ei ragnodi mewn deddfwriaeth, ac eithrio paramedrau'r hyn sy'n ofynnol.

Cwestiwn 9 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am ein cynigion neu unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt?

68. Cododd nifer o ymatebwyr faterion yn ymwneud â'r cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Lle rydym yn credu bod y rhain yn ymwneud â'r meysydd eang sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y cwestiynau uchod, rydym wedi'u cynnwys ac wedi ymateb iddynt yno. Crynhoir gweddill y materion isod:-

69. **Rhai sydd wedi optio allan yn flaenorol** – Gofynnwyd am eglurder p'un a fyddai aelod arbennig a ddewisodd brynu pensiwn drwy'r ymarfer opsiynau cyntaf ond a ddewisodd optio allan o'r cynllun yn ddiweddarach, yn awr yn gallu prynu'r holl wasanaeth optio allan hwnnw pe bai'n gymwys i gymryd rhan yn yr ail ymarfer opsiynau.

70. **Grant marwolaeth arbennig/ychwanegol** – Nododd un ymatebydd bod paragraff 1C(2) ac 1C(3) o'r Gorchymyn drafft yn darparu bod yn rhaid i ddibynnydd cymwys wneud cais am grant marwolaeth ychwanegol ar 31 Rhagfyr 2024 neu cyn hynny, er bod y rheol mewn grym lle mae'r diffoddwr tân wrth gefn yn marw cyn 30 Mehefin 2025.

71. **Datganiadau gwasanaeth rhwymediol** – Nododd un ymatebydd y gofyniad, o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddfeydd Barnwrol 2022 a'r rheoliadau rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran, i ddarparu datganiadau gwasanaeth rhwymediol erbyn 31 Mawrth 2025, neu unrhyw ddyddiad diweddarach y mae rheolwr y cynllun yn ei ystyried yn rhesymol. Nododd yr ymatebydd, ar gyfer unigolion sy'n gymwys ar gyfer yr ail ymarfer opsiynau a'r rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran, lle'r oedd angen dewis yr ail ymarfer opsiynau er mwyn penderfynu cymhwysedd ar gyfer rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran, na fyddai efallai yn ymarferol i'r datganiad gwasanaeth rhwymediol cychwynnol gael ei ddarparu erbyn 31 Mawrth 2025, gan fod hyn cyn 'dyddiad cau' yr ail ymarfer opsiynau. Teimlai'r ymatebydd y dylid cydnabod mewn deddfwriaeth neu ganllawiau y byddai angen i reolwyr cynlluniau arfer y disgrisiwn datganiad gwasanaeth rhwymediol o ran aelodau sy'n gymwys ar gyfer yr ail ymarfer opsiynau.

72. **Datblygu Meddalwedd** – Nododd un ymatebydd fod risg amlwg na fyddai'r ddeddfwriaeth derfynol yn cael ei gosod gyda digon o amser i ddarparu'r holl ddatblygiadau meddalwedd gofynnol erbyn y dyddiad gweithredu.

73. **Materion treth sy'n berthnasol i'r Ail Ymarfer Opsiynau** – Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r 'didyniad iawndal', sy'n daladwy o dan reol 6D drafft sydd i gael ei mewnosod yn Rhan 11 mewn perthynas â rhyddhad treth ar gyfraniadau, ymestyn i ystyried effaith y lwfans blynyddol cyfraniadau pensiwn wedi'u hôl-ddyddio a allai roi rhai aelodau mewn sefyllfa lai ffafriol nag y byddent wedi bod ynnddi pe bai'r cyfraniadau wedi cael eu talu drwy gydol eu gwasanaeth, a hefyd unrhyw gyfradd uwch o dreth a ysgwyddir o ganlyniad i daliad uniongyrchol o fuddion pensiwn ychwanegol wedi'u hôl-ddyddio a allai symud aelod sy'n bensiynwr i'r gyfradd drethu

uwch.

74. Roedd yr un ymatebydd yn cwestiynu pam roedd y gyfradd dreth ddiodyn wedi'i gosod ar 20% yn yr un rheol ddrafft gan mai hon oedd y gyfradd dreth incwm sylfaenol gyfredol yn hytrach na'r gyfradd sylfaenol a oedd ar waith dros rai cyfnodau yn y gorffennol.

75. **Materion treth heb eu datrys o'r Ymarfer Opsiynau Cyntaf** – Nododd un ymatebydd nad oedd mecanwaith i ddelio â rhyddhad treth ar gyfraniadau wedi'i gynnwys yn yr ymarfer opsiynau cyntaf, ac efallai na fyddai unigolion wedi gallu hawlio rhyddhad treth o ganlyniad.

76. **Gofynion gwybodaeth** - Awgrymodd un ymatebydd y dylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub ddefnyddio eu hymdrechion gorau, nid "rhesymol", i roi gwybod i'r holl unigolion sy'n gymwys i gymryd rhan yn yr ail ymarfer opsiynau, ac y dylai hyn gynnwys ymgynghori â'r Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol neu ddefnyddio gwasanaeth olrhain. Roedd yr un ymatebydd o'r farn y dylai Awdurdod Tân ac Achub wneud ymholiadau drwy CThEF am ddata cyflogaeth hanesyddol unigolyn cyn penderfynu nad oes gan yr unigolyn wasanaeth o fewn y cyfnod perthnasol. Roedd yn cydnabod y gallai cael data gan y Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol neu gan CThEF gymryd llawer o amser ac felly roedd yn awgrymu na ddylid cynnwys terfynau amser caled yn y darpariaethau.

77. Gofynnodd yr un ymatebydd am gadarnhad y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau a thempledi i sicrhau dull gweithredu cyson.

78. **Llywodraethu** – Awgrymodd un ymatebydd y dylai Llywodraeth Cymru fynnu bod Awdurdodau Tân ac Achub yn adrodd ar y cynnydd y maent yn ei wneud ar adegau priodol i sicrhau y glynir wrth yr amserlenni perthnasol a nodir yn y rheoliadau.

79. **Cynllun Digolledu** – Dywedodd un Awdurdod Tân ac Achub y gallai'r cynnig hefyd arwain at sefyllfa afreolaidd, lle na fyddai unigolion sy'n cyflawni dyletswyddau nad oeddent wedi'u cynnwys yn Neddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn cael eu diogelu o dan drefniadau o'r fath, ac ni ddylai'r cyflog am y gweithgareddau hynny ychwaith fod yn bensiynadwy.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

80. O ran aelodau a wnaeth optio allan ar ôl dewis prynu pensiwn yn yr ymarfer opsiynau cyntaf, rydym wedi bod yn glir y bydd unrhyw aelod sy'n gymwys ar gyfer yr ail ymarfer opsiynau yn gallu prynu unrhyw ran neu'r cyfan o'u gwasanaeth RDS parhaus, ac eithrio unrhyw wasanaeth sydd eisoes wedi'i brynu fel rhan o'r ymarfer opsiynau cyntaf. Ein safbwynt ni yw y byddai'r gallu i brynu gwasanaeth yn cynnwys unrhyw wasanaeth y dewisodd yr unigolyn beidio â'i brynu yn dilyn yr ymarfer opsiynau cyntaf.

81. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y dyddiad cau i wneud cais am grant marwolaeth ychwanegol yn anghywir ac mae wedi'i ymestyn i 31 Gorffennaf 2025, sef y dyddiad y daw'r ymarfer opsiynau i ben. Mae'r un dyddiad cau

diwygiedig wedi'i gynnwys ar gyfer ceisiadau am y grant marwolaeth arbennig. Ers i'r ymgynghoriad ddod i ben, mae Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am bryderon ehangach ynghylch y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y grant marwolaeth arbennig a'r grant marwolaeth ychwanegol. Rydym yn cynnig edrych eto ar y pryderon hyn ar y cyd â'r awdurdodau sy'n gyfrifol am gynlluniau pensiwn eraill diffoddwyr tân yn y DU. Yn hytrach na gohirio gweithredu'r ail ymarfer opsiynau hwn i wneud hynny, ac achosi risg o gymhlethdodau a phroblemau amseru mewn perthynas â'r rhyngweithio â'r rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran, byddwn yn parhau â'n cynigion i ddod â'r prif ddarpariaethau ar gyfer yr ail ymarfer opsiynau i rym ar 1 Chwefror 2024 ac yn cyflwyno unrhyw ddiwygiadau pellach yn ymwneud â buddion marwolaeth ar wahân, os oes angen.

82. O ran y gofyniad i ddarparu datganiadau gwasanaeth rhwymediol erbyn y terfynau amser a nodir yn y rheoliadau gwahaniaethu ar sail oedran, rydym yn cydnabod, ar gyfer yr unigolion hynny sy'n gymwys i gymryd rhan yn yr ail ymarfer opsiynau, y bydd angen darparu datganiad gwasanaeth rhwymediol ar ôl iddynt wneud eu dewis yn yr ymarfer hwnnw. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod unrhyw reswm i nodi eglurhad pellach mewn deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer hyn. Fel y cydnabu'r ymatebydd, mae'r rheoliadau eisoes yn darparu ar i reolwyr cynlluniau gyhoeddi datganiad gwasanaeth rhwymediol ar ôl 31 Mawrth 2025, ac mae'r ymateb i Gwestiwn 2 uchod yn nodi'n glir sut bydd angen i'r rhwymediâu rhyngweithio. Mae'r mater hwn hefyd wedi cael ei egluro ym Mwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru.

83. Nodwn y pryder a godwyd ynghylch digon o amser i ddatblygu'r feddalwedd rhwng llunio'r ddeddfwriaeth a'r dyddiad gweithredu. Rydym wedi sicrhau bod y dyddiadau cau ar gyfer yr ymarfer wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu'r dyddiad gweithredu gwahanol yng Nghymru. Bydd yr ymarfer ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru hefyd yn debyg iawn i'r ymarfer ar gyfer gweddill y DU, a'r unig wahaniaeth allweddol yw'r amser ar gyfer ad-dalu cyfraniadau, lle ceir cymorth drwy drefn amcangyfrif Adran Actiwari'r Llywodraeth. Felly, bydd yr ymarfer sydd eisoes ar waith yn Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi gosod y sylfaen i unrhyw newidiadau meddalwedd ar gyfer yr ymarfer yn Awdurdodau Tân ac Achub Cymru.

84. O ran materion treth sy'n ymwneud â'r ail ymarfer opsiynau, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno, yn hytrach na chymhwyso cyfradd dreth sylfaenol o 20% i ddidynnu iawndal, y dylai'r cyfraddau treth sylfaenol a oedd ar waith yn ystod y cyfnod hanesyddol y mae'r pensiwn yn cael ei brynu ar ei gyfer fod yn berthnasol. Ar ben hynny, os gall unigolyn ddarparu tystiolaeth gadarn i ddangos ei fod wedi talu cyfradd dreth uwch yn ystod y cyfnod perthnasol, yna bydd y gyfradd uwch yn cael ei defnyddio i gyfrifo'r gostyngiad. Mae'r diwygiadau hyn wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth. Roedd ein hymgynghoriad yn nodi bod rhywfaint o liniaru eisoes lle mae unigolyn yn prynu ei wasanaeth hanesyddol mewn un flwyddyn dreth lle mae gan unigolyn Lwfans Blynnyddol heb ei ddefnyddio o flynyddoedd treth blaenorol. Roedd y Lwfans Blynnyddol hefyd wedi cynyddu o £40,000 i £60,000 o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Nid oedd materion treth a oedd yn codi o'r ymarfer opsiynau cyntaf yn ddarostyngedig i'r ymgynghoriad hwn ac maent yn fater rhwng y cyflogwr, y cyflogai a CThEF.

85. Rydym yn nodi'r awgrymiadau a wnaed ynghylch y camau y dylai Awdurdodau Tân ac Achub eu cymryd i sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i unigolion cymwys am eu hawl i gymryd rhan yn yr ail ymarfer opsiynau ond rydym yn credu mai "ymdrechion rhesymol" yw'r lefel briodol o faich yn yr amgylchiadau, a bod y camau y dylai pob Awdurdod Tân ac Achub eu cymryd yn fater i'w ystyried yn lleol, ar sail amgylchiadau lleol. Gall Awdurdodau ddefnyddio unrhyw fodd i ddod o hyd i unigolion cymwys gan gynnwys defnyddio ffynonellau allanol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Felly, nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu bod yn fwy rhagnodol ar y mater hwn.

86. Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i Fwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru fonitro gweithrediad ymarfer Opsiynau 2024 i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni'n brydlon ac i weithredu fel cyfrwng i godi a datrys unrhyw broblemau a nodir yn ystod y broses. Rydym yn ymwybodol fod y Gymdeithas Llywodraeth Leol eisoes wedi gwneud cryn dipyn o waith i ddarparu templedi safonol a chanllawiau i Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn cael gweithredu cyson ar draws Awdurdodau Tân ac Achub. Mae hyn yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd yn yr ymarfer opsiynau cyntaf.

87. O ran ein cynigion ar gyfer y cynllun digolledu, nodwn bryderon yr ymatebydd na fyddai unigolion sy'n cyflawni dyletswyddau nad ydynt yn ddyletswyddau statudol o eiddo'r Awdurdod Tân ac Achub, o dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, yn cael eu gwarchod. Fodd bynnag, credwn fod y sefyllfa hon yn gywir. Mae ein cynigion yn ceisio ymestyn hawliau i iawndal i bawb sydd wedi'u contractio i gyflawni unrhyw un o ddyletswyddau ymateb brys craidd Awdurdod Tân ac Achub, nid unrhyw waith dewisol arall y gallai Awdurdod Tân ac Achub gytuno i'w gyflawni. Ar hyn o bryd nid yw Awdurdodau Tân ac Achub yn darparu buddion cynllun digolledu ar gyfer dyletswyddau nad ydynt yn ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, felly nid ydym yn credu y byddai ein cynnig yn creu anghysondeb.

DIWYGIADAU ERAILL

88. Yn ystod ein dadansoddiad ôl-ymgyngori, yn ogystal ag adolygu'r ymatebion a gawsom i'n hymgyngoriad ni, rydym hefyd wedi dadansoddi'r crynodeb o ymatebion a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref a'r diwygiadau canlyniadol y mae'r Swyddfa Gartref wedi'u gwneud i ddarpariaethau'r cynllun sy'n berthnasol i Awdurdodau Tân ac Achub yn Lloegr. Nid oedd rhai o'r diwygiadau yr oedd y Swyddfa Gartref wedi'u cynnwys yn faterion a godwyd yn yr ymatebion i'n hymgyngoriad ni. Fodd bynnag, credwn y dylid eu cynnwys nhw hefyd yn ein darpariaethau terfynol. Buom yn trafod y cynigion hyn gyda Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru, y mae ei aelodaeth yn cynnwys yr holl gynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr allweddol, cyn eu cynnwys yn y darpariaethau terfynol. Mae'r prif ddiwygiadau fel a ganlyn:-

- Darpariaeth ar gyfer 25% o'r tâl cyfeirio amser llawn fel y dewis diofyn ar gyfer cyfrifo'r grant marwolaeth am y cyfnod cyfyngedig estynedig.

- Darpariaeth ar gyfer 25% o'r tâl cyfeirio amser llawn fel y dewis diofyn ar gyfer gwasanaeth cyn 2000 lle nad yw'r awdurdod yn dal cofnodion tâl a bod rhaid iddo benderfynu ar dâl pensiynadwy o gofnodion eraill neu brofiad lleol. Mewn achos o'r fath, lle mae'r penderfyniad hwn yn dangos swm sy'n llai na 25%, 25% fydd y dewis diofyn. Mewn achosion lle mae'r awdurdod yn penderfynu o gofnodion eraill neu brofiad lleol bod y swm yn uwch na 25%, yna gellir defnyddio'r swm uwch.
- Darpariaeth i beidio â mynd uwchlaw'r cap uchafswm gwasanaeth o 30 mlynedd o ganlyniad i brynu pensiwn ychwanegol yn yr ymarfer opsiynau cyntaf a phenderfyniadau i brynu gwasanaeth pellach yn yr ail ymarfer opsiynau.
- Darpariaeth i gymhwyso llog i'r swm rhyddhad treth a fydd yn cael ei dynnu oddi ar gyfraniadau sy'n ddyledus gan aelod (yn ogystal â chymhwyso llog i'r cyfraniadau sy'n ddyledus).
- Mae darpariaethau mewn perthynas â throsglwyddiadau a throsiadau bellach wedi'u cynnwys er gwybodaeth yn ein dogfen ymgynghori. Mae'r rhain yn gyson â'r polisi ar drosglwyddiadau a throsiadau ar gyfer yr ail ymarfer opsiynau sy'n cael ei roi ar waith mewn manau eraill yn y DU.

Y CAMAU NESAF

89. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Byddwn nawr yn gwneud ac yn gosod Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024 i ddod i rym ar 1 Chwefror 2024.

ATODIAD 1 – RHESTR O’R YMATEBWYR

- Cymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub
- Undeb y Brigadau Tân
- Heywood Pension Technologies
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Wyth Ymatebydd Unigol